

## COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

**Cofnodion cyfarfod cyntaf Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a gynhaliwyd ym mhrif swyddfa'r Coleg yng Nghaerfyrddin am 11.00 y bore ar ddydd Mercher, 23, Tachwedd 2011**

### Yn bresennol:

- Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Dr Siân Wyn Siencyn, Gwerfyl Roberts, Dr Dylan Foster Evans, Elin Haf Gruffydd Jones, yr Athro Gwynedd Parry, yr Athro Densil Morgan, Dr Eleri Pryce, Delyth Murphy, yr Athro Deri Tomos
- Aelodau (Canghennau): Gina Morgan, Dr Lisa Lewis, Phil Ainsworth, Dr Anwen Jones, Andrew Parry (ar ran Julie Brake), Dr Gwenno Ffrancon, Gwilym Dyfri Jones, Dr Geraint Cunnick
- Aelodau (Myfyrwyr): Adam Jones, Daniel Taylor, Alys Rosser, Manon George
- Aelodau (Colegau Cymru): Gwennan Owain, Peter Rees
- Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips, Dr Gwennan Schiavone, Dr Dafydd Trystan (Ysgrifennydd y Bwrdd)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>1. Croeso a Chyflwyniad</b>	<p>1.1. Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod cyntaf gan y Deon</p> <p>1.2. Nodwyd pwysigrwydd gwaith y Bwrdd Academaidd o ran datblygu strategaeth a chynllun academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol [y Coleg].</p> <p>1.3. Nodwyd pwysigrwydd perchnogaeth academaidd ar ddatblygiadau'r Coleg.</p> <p>1.4. Gosodwyd yr amcan o weithredu yn genedlaethol wrth drafod a chytuno strategaeth.</p>		
<b>2. Ymddiheuriadau a Datganiadau o</b>	<p>2.1. Nodwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Richard Wyn Jones, Dr Siwan Davies, Dr Gwilym Roberts, Dr Carwyn</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>Ddiddordeb</b>	<p>Jones a Julie Brake</p> <p>2.2. Nododd y Cadeirydd ei fod yn aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg, a nodwyd yn gyffredinol gyflogaeth aelodau'r Bwrdd yn y gwahanol sefydliadau.</p>		
<b>3. Cylch Gorchwyl y Bwrdd Academaidd</b>	<p>3.1. Derbyniwyd copi o Gylch Gorchwyl y Bwrdd Academaidd yn y ffyrf y'i cymeradwywyd gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg.</p> <p>3.2. Nodwyd y byddai eitem sefydlog mewn cyfarfodydd dilynol ar gyfer materion a gyfeirir at y Bwrdd gan Ganghennau a gan y myfyrwyr. Gofynnir i aelodau sy'n dymuno codi materion o'r fath i ohebu gyda'r Deon neu Ysgrifennydd y Bwrdd o leiaf wythnos o flaen llaw fel bo modd nodi'r materion ar yr agenda.</p> <p>3.3. Nodwyd y byddai'r Bwrdd yn penderfynu ar Is-Gadeirydd i'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf. Gwahoddir enwebiadau cyn y cyfarfod nesaf.</p> <p>3.4. Trafodwyd manylion y trefniadau ar gyfer dirprwyo ar ran aelodau o'r Bwrdd sydd yn cynrychioli'r canghennau. Nodwyd y bydd y Coleg yn cysylltu â'r sefydliadau cyn y cyfarfod nesaf i'w gwahodd i benodi dirprwy i'w cynrychiolydd enwebedig a all fynychu yn ei le. Ni fydd modd penodi unigolyn sydd eisoes yn aelod o'r Bwrdd i weithredu fel dirprwy.</p> <p>3.5. Atgoffwyd aelodau y byddai aelodau yn ildio'u lle ar y Bwrdd wrth fethu dau gyfarfod yn olynol heb reswm dilys.</p> <p>3.6. Nodwyd y byddai papur ar Is-Bwyllgorau'r Bwrdd Academaidd (a fyddai'n ymgorffori'r trefniadau blaenorol ar gyfer paneli rhwydwaith) yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd.</p>	<p>Cynrychiolwyr Canghennau a Myfyrwyr i gysylltu o flaen llaw os am ychwanegu materion i'r agenda</p> <p>Ysgrifennydd i wahodd enwebiadau</p> <p>Pob cangen i benodi dirprwy i'r cynrychiolydd</p> <p>Papur i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd</p>	<p>Erbyn 24/1/12</p> <p>Erbyn 24/1/12</p> <p>Erbyn 24/1/12</p> <p>Chwefror 1, 2012</p>
<b>4. Cyflwyniad ar waith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol</b>	<p>4.1. Derbyniwyd cyflwyniad ar waith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gan y Prif Weithredwr</p> <p>4.2. Amlinellwyd cyfrifoldebau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Bwrdd Academaidd</p> <p>4.3. Nodwyd cynlluniau newydd y Coleg</p> <p>4.4. Nodwyd fod cynllun gweithredol y Coleg wedi ei gytuno rhwng y Coleg a'r Cyngor Cyllido.</p> <p>4.5. Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr a staff y Coleg am eu gwaith yn ystod cyfnod sefydlu'r Coleg.</p>		
<p><b>5. Trafodaeth ar Strategaeth Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol</b></p>	<p>5.1. Gosodwyd cyd-destun i'r drafodaeth gan y Deon, gan bwysleisio yr angen am gynllun cenedlaethol.</p> <p>5.2. Nodwyd amrywiol gwestiynau y byddai angen mynd i'r afael â nhw gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pwysigrwydd creu darpariaeth o'r safon uchaf;</li> <li>• Fframwaith ar gyfer blaenoriaethu, gan gynnwys sicrhau adnoddau cefnogol priodol;</li> <li>• Yr angen i ganoli neu ddatganoli darpariaeth;</li> <li>• Y flaenoriaeth i ddarpariaeth rhyng-ddisgyblaethol a/neu rhyng-sefydliadol, gyda phwyslais ar gydweithio;</li> <li>• Pwysigrwydd dilyniant.</li> </ul> <p>5.3. Nodwyd y byddai'r Cynllun Academaidd yn gosod y cyd-destun i'r holl benderfyniadau buddsoddi a wneir gan y Coleg.</p> <p>5.4. Derbyniwyd cyflwyniad ar ddata cyfrwng Cymraeg gan Dr Dafydd Trystan yn nodi'r sefyllfa fel ag yr oedd yn 2009/10.</p> <p>5.5. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o 5,600 o fyfyrwyr yn astudio rhywfaint trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2012/13. Nodwyd bod y Cyngor Cyllido wedi cymeradwyo cynlluniau ffioedd y sefydliadau unigol, ond nad oedd y targedau unigol at ei gilydd yn ddigon i gwrdd â'r targed.</p> <p>5.6. Cafwyd trafodaeth eang a sylweddol ar yr amrywiol faterion sy'n gyfleoedd ac yn heriau wrth ddatblygu'r Cynllun Academaidd, gan gynnwys, ond heb fod yn</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>gyfyngedig i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pwysigrwydd cynyddu'r niferoedd a'r CALiau sy'n astudio yn Gymraeg;</li> <li>• Pwysigrwydd cynyddu'r profiad addysgiadol cyfrwng Cymraeg;</li> <li>• Helaethu'r nifer o lwybrau gradd y mae modd eu hastudio yn Gymraeg;</li> <li>• Anghenion cyflogwyr – gan nodi yn arbennig y meysydd hynny ble mae galw sylweddol o du'r cyflogwyr am sgiliau dwyieithog;</li> <li>• Y sgiliau trosglwyddadwy a ddatblygir wrth astudio yn Gymraeg;</li> <li>• Sgiliau a hyfedredd iaith y myfyrwyr;</li> <li>• Nifer y staff sydd eu hangen mewn maes penodol er mwyn cynnal darpariaeth gynaliadwy;</li> <li>• Perthynas gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyda chynlluniau'r sefydliadau unigol.</li> </ul>		
<p><b>6. Proses ac Amserlen Llunio'r Cynllun Academaidd</b></p>	<p>6.1. Nodwyd papur yn amlinellu proses ac amserlen llunio Cynllun Academaidd.</p> <p>6.2. Nodwyd y byddai cyfle penodol i'r Canghennau gynnig mewnbyn i'r broses yn ystod y Gwanwyn.</p> <p>6.3. Nodwyd mai'r cam nesaf byddai i'r Deon gyda'r swyddogion i lunio drafft cyntaf yn seiliedig ar drafodaethau'r Bwrdd i'w cyflwyno i'r cyfarfod o'r Bwrdd ar y 1af o Chwefror.</p>	<p>Cyflwyno drafft cyntaf o'r Cynllun Academaidd i gyfarfod nesaf y Bwrdd</p>	<p>Chwefror 1, 2012</p>
<p><b>7. Egwyddorion y Cynllun Academaidd</b></p>	<p>7.1. Derbyniwyd y canlynol fel egwyddorion a themâu fydd yn sail i ddrafft cyntaf Cynllun Academaidd Cenedlaethol:</p> <p>7.2. <b>Egwyddor:</b> Yr hawl i addysg uwch cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf.</p> <p>7.3. <b>Proses:</b> Cynllunio bwriadus ar lefel disgyblaethol neu</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>grwpiau o ddisgyblaethau; gyda threfn clir o fesuryddion a phroses adolygu er mwyn i'r Bwrdd arolygu cynnydd.</p> <p>7.4. <b>Themâu:</b></p> <p><b>Cynladwyedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Digon o staff i gynnal ansawdd ac amrediad y ddarpariaeth;</li> <li>• Cydweithio a chydblethu datblygiadau gyda chynllunio a buddsoddi sefydliadol;</li> <li>• Dim helaethu lleoliadau astudio heb gynllunio penodol;</li> <li>• Dim lleihau lleoliadau astudio heb gynllunio penodol.</li> </ul> <p><b>Cyflogadwyedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr angen i ymateb i'r galw gan gyflogwyr am sgiliau dwyieithog mewn meysydd arbennig;</li> <li>• Yr angen i ddatblygu partneriaethau gyda chyflogwyr a/neu grwpiau o gynrychiolwyr er mwyn dangos budd addysg cyfrwng Cymraeg i'r cyflogwyr;</li> <li>• Datblygu sgiliau iaith y myfyrwyr gyda chymhwyster cydnabyddedig er mwyn arddangos hynny.</li> </ul> <p><b>Ymateb i'r Galw gan Fyfyrwyr a Meithrin Galw ymhlith Myfyrwyr</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Derbyn fframwaith ysgoloriaethau'r Coleg fel dull o fesur cynnydd – myfyrwyr yn astudio 40 neu 80 credyd y flwyddyn yn Gymraeg;</li> <li>• Gweithredu rhaglen farchnata a chyfathrebu grymus i hybu a hyrwyddo'r cyfleoedd i astudio yn Gymraeg;</li> <li>• Nodi'n glir wrth gynllunio'r meysydd (a'r sefydliadau) hynny ble mae nifer o fyfyrwyr rhugl eu Cymraeg yn astudio ond ble nad oes darpariaeth (sylweddol) ar eu cyfer;</li> <li>• Datblygu rhaglen benodol ar gyfer myfyrwyr ail iaith yn y Brifysgol;</li> <li>• Ystyried datblygu cyfleoedd i bob myfyriwr, lle'n</li> </ul>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>briodol, dderbyn modiwlau ymwybyddiaeth iaith;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cydweithio yn benodol gydag UCAS i ddatblygu proffil y Coleg trwy weithdrefnau UCAS.</li> <li>• Sicrhau dilyniant priodol (o'r Ysgol / Coleg / gweithle i'r Brifysgol, trwy'r Brifysgol ac i'r gweithle) drwy gydweithio gyda sectorau eraill</li> <li>• Ystyried sut i dargedu darpar fyfyrwyr aeddfed fel rhan o weithgareddau marchnata chyfathrebu'r Coleg.</li> </ul> <p><b>Cyfleoedd Cydweithredol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hybu'r ddarpariaeth gydweithredol fel rhan o'r cynllunio academaidd;</li> <li>• Cydweithio rhyng-sefydliadol;</li> <li>• Cydweithio rhyngddisgyblaethol;</li> <li>• Dysgu Cyfunol a Dysgu o Bell;</li> <li>• Darparu Gofodau Dysgu priodol er mwyn hybu cydweithio;</li> <li>• Ystyried priodoldeb swyddogion / cydlynwyr pynciol / disgyblaethol.</li> </ul> <p>7.5 Cytunwyd y byddai'r Deon a'r Swyddogion yn llunio drafft o Gynllun Academaidd yn seiliedig ar yr egwyddorion a'r themâu a nodir uchod gan ymgynghori'n briodol gydag aelodau'r Bwrdd fel bo'r angen.</p>		
<p><b>8. Materion Eraill</b></p>	<p>8.1. Nodwyd y byddai traean o aelodau'r Bwrdd a benodir gan y Coleg yn ymddeol bob dwy flynedd ac y byddai papur yn cael ei baratoi erbyn y cyfarfod nesaf yn amlinellu sut y bydd y trefniadau hyn yn gweithredu yn ymarferol.</p> <p>8.2. Mewn ymateb i gwestiwn, nodwyd y rhagwelir y bydd is-bwyllgorau'r Bwrdd Academaidd yn dod yn weithredol erbyn blwyddyn academaidd 2012/13. Yn y cyfamser, byddai cyfarfodydd o'r paneli rhwydwaith yn parhau i gael eu cynnal ble bo angen am drafodaeth benodol. Ategwyd y byddai cynigion pendant mewn perthynas ag is-</p>	<p>Cyflwyno papur ar aelodaeth y Bwrdd a phatrwm 'ymddeoliadau' i'r cyfarfod nesaf.</p>	<p>Chwefror 1, 2012</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	bwyllgorau yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf, gan gynnwys amlinelliad posibl o ddsbarthiad y pynciau o fewn trefn yr is-bwyllgorau.		
<b>9. Dyddiad a lleoliad y Cyfarfod Nesaf</b>	9.1 Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 1 Chwefror 2012, yng Nghaerdydd.		